Ffurflen Rhodd – Trosglwyddo Perchnogaeth
Donation Form – Transfer of Ownership
Oriel Ynys Môn

Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council Museum Service

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Enw Rhoddwr / Name of Donor:	
Cyfeiriad / Address:	
Rhif Ffôn / Phone number:	**Ebost / Email:**

Disgrifiad o'r eitem/au a roddwyd / Description of item/s donated nifer o eitemau / number of items _____

Manylion pellach (i gynnwys gwybodaeth cydnabyddiaeth) **/ Additional information** (to include acknowledgment details)

Rhoddwr / Donor

Fel rhoddwr/wyr a pherchennog/ion yr eitem/au a restrir uchod rwyf i/ni yn cadarnhau fod gen i/gennym ni hawl diamheuol yr eitem/au a thrwy hyn yn trosglwyddo perchnogaeth lawn yr eitem/au ddisgrifir uchod i Wasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn
As the donor/s and owner/s of the item/s listed above I/ we confirm that I/we have undisputed title to the said item/s and hereby transfer absolute ownership of the item/s described above to the Isle of Anglesey County Council Museum Service

i gynnwys hawlfraint / to include copyright	**ddim i gynnwys hawlfraint / excluding copyright**
Llofnod / Signature:	Llofnod / Signature:
Dyddiad / Date:	Dyddiad / Date :

Derbynydd yr Amgueddfa / Museum Recipient

Yr wyf yn cydnabod yr eitem/au a ddisgrifir uchod ar ran Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn
I acknowledge receipt of the item/s described above on behalf of the Isle of Anglesey County Council Museum Service

Enw / Name:

Llofnod / Signature: **Dyddiad / Date:**

Lleoliad / Location:	**Rhif Derbyn / Accession Number:**

TELERAU AC AMODAU

Trosglwyddo Teitl

1. Mae pobl yn rhoi eitemau yn rhodd i Oriel Ynys Môn, Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn (a elwir "yr Amgueddfa" ar ôl hyn), gan ddefnyddio'r ffurflen Trosglwyddo Teitl sy'n trosglwyddo perchenogaeth yr eitem/au i'r Amgueddfa. Bydd y ffurflen Trosglwyddo Teitl yn cael ei pharatoi gan staff yr Amgueddfa mewn ymgynghoriad gyda'r person sy'n rhoddi'r eitem a bydd staff yr Amgueddfa yn hwyluso trosglwyddiad yr eitemau yn ôl yr angen.
2. Drwy lofnodi'r ffurflen Trosglwyddo Teitl, rydych yn trosglwyddo perchenogaeth lawn o'r eitem oddi wrthych chi i'r Amgueddfa a hynny am byth. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda cyn llofnodi.

Arddangos

3. Nid yw casgliadau'r Amgueddfa yn cael eu harddangos yn barhaol i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gellir gweld y cyfan o gasgliadau'r Amgueddfa nad ydynt yn cael eu harddangos ar hyn o bryd drwy wneud trefniant ymlaen llaw gyda staff yr Amgueddfa.

Defnyddio eitem/au

4. Yn ychwanegol at eu harddangos, gellir gwneud defnydd o gasgliadau'r Amgueddfa gan staff, ymchwilwyr preifat a phroffesiynol, haneswyr teulu / haneswyr lleol, amgueddfeydd achrededig eraill a grwpiau ysgol sy'n ymweld â'r Amgueddfa. Caiff casgliadau'r Amgueddfa hefyd eu benthyca ar sail dros dro i Amgueddfeydd achrededig i ychwanegu at eu harddangosfeydd a'u rhaglenni arddangos nhw.
5. Yn gyffredinol, oherwydd y risg gynyddol o golled neu ddifrod, nid yw'r Amgueddfa yn benthyca eitemau i unigolion preifat.

Diolchiadau

6. Bydd enw'r sawl sydd wedi rhoddi'r eitem yn ymddangos ar unrhyw label pan fydd yr eitem/au yn cael eu harddangos yn yr Amgueddfa oni ddywedir yn wahanol dros y ddalen.

Cadwraeth

7. Caiff casgliadau Amgueddfa Oriel Ynys Môn eu cadw mewn cyfleusterau storio diogel yn unol â safonau achrededig cenedlaethol**.**
8. Mae gan wasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn yswiriant penodol ar gyfer casgliadau'r Amgueddfa.
9. Bydd hawl gan yr Amgueddfa gan ddefnyddio ei ddisgresiwn llwyr: i wneud unrhyw waith cadwraeth ac / neu waith adfer ar yr eitem/au yr ystyrir ei fod yn ddymunol ac yn ymarferol; gwahardd mynediad cyhoeddus i'r eitemau os ydynt mewn cyflwr bregus hyd oni fydd y gwaith cadwraeth hwnnw wedi ei gwblhau; a labelu eitemau gyda chyfeirnod fel y gellir eu hadnabod a'u cadw'n ddiogel.
10. Caiff casgliadau'r Amgueddfa eu cadw mewn ymddiriedolaeth i bobl Ynys Môn ac os bydd yr Amgueddfa yn cau yn barhaol, byddwn yn disgwyl i'r casgliadau gael eu trosglwyddo i Amgueddfa achrededig arall.

Hawlfraint

11. Cadwch mewn cof os gwelwch yn dda mai gwahoddiad yn hytrach na gorchymyn yw hwn. Mae'r Amgueddfa yn derbyn sawl cais am gopïau o ddeunyddiau yn ei gasgliadau i amryfal ddibenion gan gynnwys ymchwil ac astudiaeth breifat. Er bod y gyfraith hawlfraint yn caniatáu i ni ddarparu copïau o rywfaint o'r deunydd i bwrpas ymchwil anfasnachol ac astudiaeth breifat heb ofyn am ganiatâd perchennog yr hawlfraint, gall yr angen i awduron a chyhoeddwyr gael caniatâd olygu cryn dipyn o waith i'r amgueddfa yn arbennig felly mewn achos lle nad yw perchennog yr hawlfraint yn rhoi gwybod i ni am newid cyfeiriad ac ati.
12. Byddai trosglwyddo hawlfraint i'r Amgueddfa yn lleihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhoi sylw i geisiadau o'r fath gan alluogi'r staff i dreulio mwy o amser yn gofalu am gasgliadau'r Amgueddfa a rhoi cyfle i'r Amgueddfa godi incwm a fydd wedyn yn cael ei ailfuddsoddi i wella'r arddangosfeydd a chyfleusterau eraill sydd ar gael i ymwelwyr.
13. Delir hawlfraint gan y person sy'n creu "gwaith llenyddol, artistig, cerddorol neu ddramatig gwreiddiol" a gellir ei gymynroddi neu ei aseinio i bobl neu sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mewn achos lle mae gwaith yn cael ei greu fel rhan o gyflogaeth rhywun, cyflogwr yr awdur sydd biau'r hawlfraint. Mae cyfnod oes yr hawlfraint yn dibynnu ar nifer o ffactorau ond ar gyfer gwaith mewn hawlfraint breifat, mae'r cyfnod fel arfer yn 70 o flynyddoedd o ddiwedd y flwyddyn pan fu farw'r sawl greodd y gwaith.

Amodau Arbennig

14. Os cytunir ar amodau arbennig, sy'n ychwanegol at yr uchod rhwng yr Amgueddfa a pherchennog y rhodd, dylid cofnodi'r rhain ar daflen ar wahân a rhaid i'r perchennog, y sawl a roddodd yr eitem a chynrychiolydd awdurdodedig o'r amgueddfa lofnodi'r daflen.

Deddf Diogelu Data 1998 – Nodyn Preifatrwydd

Mae'r Amgueddfa yn casglu eich gwybodaeth bersonol ar y ffurflen hon ac yn ei phrosesu i bwrpas gweinyddu'r casgliadau sydd dan ei gofal.
Cedwir eich gwybodaeth bersonol ar y ffeil ar fformat papur ac electronig diogel. Ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu i unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd, oni bai bod dyletswydd gyfreithiol arnom i ddatgelu neu rannu'r wybodaeth heb eich caniatâd yn unol â Ddeddf Diogelu Data 1998 e.e. i bwrpas atal trosedd.
Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi hawl i chi weld y wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch. Os ydych yn gwneud cais i gael gweld eich gwybodaeth dan y Ddeddf honno, gellir codi tâl arnoch i gwrdd â chostau darparu'r wybodaeth

TERMS AND CONDITIONS

Transfer of title

1. Donors give items to Oriel Ynys Môn, The Isle of Anglesey County Council's Museum Service (hereinafter "the Museum"), using the Transfer of Title form which conveys ownership of the item/s to the Museum. The Transfer of Title form will be prepared by the Museum staff in consultation with the donor and Museum staff will facilitate the transfer of the items as needed.
2. By signing the Transfer of Title form, you are transferring full ownership of the item from yourself to the Museum in perpetuity. If you have any concerns, please contact us before signing.

Display

3. The Museum's collections are not kept permanently on public display. However, all the Museum's collections not currently on display can be accessed, by prior arrangement with the Museum staff.

Use of item/s

4. In addition to display, the Museum's collections may be used by: staff, private and professional researchers, family/local historians, other accredited museums; and visiting school groups. The Museum's collections are also loaned out temporarily to accredited museums to enhance their displays and exhibition programme.
5. In general, because of the increased risk of loss or damage, the Museum does not lend objects to private individuals.

Acknowledgments

6. The donors' name will appear on any accompanying label when items are displayed within the Museum, unless otherwise stated overleaf.

Preservation

7. Oriel Ynys Môn's museum collections are kept in secure storage facilities, in accordance with national accredited standards.
8. The Museum's collections are covered under a specific insurance for the Isle of Anglesey County Council's Museum Service.
9. The Museum will be entitled in its absolute discretion: to carry out conservation and / or restoration work on the item/s as may be considered desirable and practicable; to withhold public access to them, if in a fragile condition, until that conservation work has been completed; and label items with a reference for their identification and safe keeping.
10. The Museum's collections are held in trust for the people of Anglesey and, in the event of permanent closure, we would expect the collections to be transferred elsewhere to another accredited museum.

Copyright

11. Please bear in mind that it is an invitation, rather than a demand. The Museum receives many requests for copies of material in its collections, for a variety of purposes; including research and private study. Whilst copyright law allows us to provide copies of some material for non-commercial research and private study without seeking the copyright owner's permission, the need for authors and publishers to obtain permission can involve the Museum in significant amounts of work, especially where the copyright owner does not inform us of changes of address etc.
12. Assigning copyright to the Museum would reduce the administration involved in handling such requests, thereby enabling more staff time to be spent on caring for the Museum's collections and giving the opportunity for the Museum to raise income that would be re-invested in improving the exhibitions and other facilities for visitors.
13. Copyright is held by the person who creates "an original literary, artistic, musical or dramatic work" and can be bequeathed or assigned to other people or organisations. However, where a work is created as part of someone's employment, the author's employer owns the copyright. The duration of copyright depends on a number of factors, but for works in private copyright the term is usually 70 years from the end of the year in which the creator died.

Special Conditions

14. If special conditions, additional to the above, are agreed between the Museum and the owner/depositor, these should be recorded on a separate sheet, to which the owner/depositor and an authorised museum representative must both be signatories.

Data Protection Act 1998 - Privacy Notice

The Museum collects your personal information on this form and processes it, for purposes of administering the museum collections in its custody.
Your personal information will be held on file in secure electronic and paper format. Your information will not be disclosed to any third without your consent, unless we are under a legal duty, under the Data Protection Act 1998, to disclose or share it without consent, e.g. for crime prevention.
The Data Protection Act gives you the right to access information held about you. Any access request under this Act may be subject to a fee to meet our costs in providing you with details of the information we hold.